



Newyddlen Rhifyn 1 Chwefror 2017

Cynnwys:

2017	tud. 1-2
Hwb Newydd i Swyddi, Twf a Buddsoddi	tud. 2-3
Eurodesk UK	tud. 3
Y diweddaraf am Brexit	tud. 4-5
Erasmus+ yn Dathlu 30 Mlynedd	tud. 6

Blwyddyn Newydd Dda

A ydych chi'n hoffi ein newyddlen newydd?

Rydyn ni am i chi gysylltu â ni!



Gallwch ein dilyn ar Twitter ac anfon neges drydar atom ni: [@europedirectwrxm](https://twitter.com/europedirectwrxm)



Gallwch ein hoffi ar Facebook ac anfon neges atom ni: [/europedirectwrexham](https://www.facebook.com/europedirectwrexham)



Gallwch ein ffonio: **01978 292631**



Gallwch anfon e-bost atom: europedirect@wrexham.gov.uk



Gallwch ddod i'n gweld yn **Llyfrgell Wreccsam**.

2017

Mae 2017 yn edrych fel y bydd hi'n flwyddyn brysur arall. Mae disgwyl i Erthygl 50 gael ei thanio, a fydd wedyn yn dechrau'r trafodaethau ar ba fath o berthynas fydd gan y DU a'r 27 gwlad sydd ar ôl yn yr UE.

Er hyn, bydd Europe Direct yn dal i weithredu a bydd ar gael ar gyfer gweithdai i ysgolion, gwybodaeth, cyhoeddiadau a digwyddiadau eraill. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, yna mae croeso i chi gysylltu â ni.

Digwyddiadau sydd i ddod:

- Digwyddiadau gyrfaedd wedi'u trefnu mewn ysgolion lleol.
- Ddydd Mawrth 14 Chwefror, byddwn mewn ffair swyddi ym Mhrifysgol Glyndŵ r.
- Ddydd Mawrth 28 Chwefror, byddwn mewn digwyddiad gyrfaedd arall ym Mhrifysgol Glyndŵ r.
- Mis Ebrill – gweithdai yng Ngholeg Cambria.
- Mis Ebrill-Mehefin – Cyfres o weithdai yn Ysgol Uwchradd Sant Joseff.
- Gorffennaf – Eisteddfod Llangollen.
- Awst – Sioe Amaethyddol Dinbych a Fflint.

I ddod yn y newyddlen yn 2017:

- ✓ Gwybodaeth am y Corfflu Cydsefyll Ewropeaidd – cynllun sy'n dod â chyfleoedd i wirfoddoli ac am hyfforddiant mewn gwledydd eraill ynghyd.
- ✓ Adnodd newydd ar gyfer ysgolion uwchradd i godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd bwyd a ffermio i'n bywydau bob dydd. Mae'r adnodd yn trafod bwyd, yr amgylchedd a ffermio ac mae'n cynnwys cynlluniau gwersi, mapiau taflenni gwaith a phrosiectau.
- ✓ Cyfle i roi adborth am yr hyn rydych chi ei eisiau o'r UE a'r hyn rydych chi'n ei feddwl y dylai'r UE fod yn ei wneud, yn enwedig yn sgil y DU yn gadael yr UE.
- ✓ A llawer mwy.



Deg Blaenoriaeth y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Ewrop

Rydyn ni wedi bod yn edrych ar Ddeg Blaenoriaeth y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Ewrop. Y blaenoriaethau hyn yw:

- Hwb newydd i swyddi, twf a buddsoddi,
- ✓ Marchnad sengl ddigidol a chysylltiedig,
- ✓ Undeb ynni gwydn â pholisi newid hinsawdd sy'n edrych tua'r dyfodol,
- Marchnad fewnol ddyfnach a thecach sydd â sail ddiwydiannol gryfach,
- Undeb Economaidd ac Ariannol dyfnach a thecach,
- ✓ Cytundeb masnach rydd rhesymol a chytbwys gyda'r Unol Daleithiau,
- Ardal o gyfiawnder a hawliau sylfaenol wedi'u seilio ar gydymddiried,
- ✓ Symud tuag at bolisi newydd ar fudo,
- ✓ Gweithredu'n gryfach yn fyd-eang,
- ✓ Undeb o newid democrataidd.

Mae'r blaenoriaethau sydd â thic wedi'u cynnwys mewn rhifynnau blaenorol. Yn y rhifyn hwn, byddwn yn canolbwyntio ar 'Hwb newydd i swyddi, twf a buddsoddi'.

Hwb Newydd i Swyddi, Twf a Buddsoddi



O ganlyniad i'r argyfwng economaidd ac ariannol, bu gostyngiad yn lefelau buddsoddi'r UE, felly mae'r comisiwn wedi penderfynu creu cynllun buddsoddi a gwneud newidiadau strwythurol er mwyn dod â thwf cynaliadwy yn ei ôl. Mae tri phrif faes polisi y mae'r comisiwn wedi'u targedu:

- **Y Cynllun Buddsoddi.**
Bwriad y cynllun yw cael gwared â rhwystrau i fuddsoddi, darparu rhagolygon a chymorth technegol i brosiectau a defnyddio adnoddau ariannol newydd a chyfredol yn fwy doeth. Mae tair prif ffordd y maent am gyflawni hyn. Y gyntaf yw cael y Gronfa Ewropeaidd ar gyfer Buddsoddiadau Strategol i fynd i'r afael â bylchau yn y farchnad, ennyn buddsoddiadau preifat, cefnogi isadeiledd, addysg, ymchwil, arloesi ac arian risg i fusnesau bach.

Yr ail yw creu cyfleoedd newydd i fuddsoddwyr sefydliadol, hyrwyddwyr prosiectau a mentrau o faint bach-canolig trwy InvestEU, Porth Prosiect Buddsoddi Ewrop a Chanolbwynt Cyngor Buddsoddi Ewrop. Y drydedd yw gwella'r amgylchedd ac amodau ariannu trwy nodi'r prif heriau ar lefel genedlaethol, a fydd yn cynnwys datblygu tuag at Farchnad Sengl Ddigidol, yr Undeb Ynni ac Undeb Marchnadoedd Cyfalaf.

- **Y Semester Ewropeaidd.**

Bydd hyn yn gwella'r fframwaith ar gyfer cydlynu polisiau economaidd rhwng gwladwriaethau sy'n aelodau o'r UE. Bydd yn caniatáu i'r gwledydd drafod eu cynlluniau economaidd a chyllidebol a monitro eu cynnydd ar adegau penodol yn ystod y flwyddyn.

- **Symud tuag at Economi Gylchol.**

Bydd hyn yn helpu i gryfhau prosesau trosglwyddo rhwng busnesau a defnyddwyr Ewrop ac yn gwneud adnoddau'n fwy cynaliadwy. Maent am hyrwyddo mwy o ailgylchu ac aildefnyddio deunyddiau craidd, a fydd yn arbed ynni ac yn lleihau allyriadau Nwyon Tŷ Gwyr. Maent am weld cylch oes llawn i gynnyrch, o'r cam cynhyrchu i reoli gwastraff, neu farchnad bosibl ar gyfer deunyddiau craidd eilaidd. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan €5.5 biliwn i reoli gwastraff, €650 miliwn i Horizon 2020 a buddsoddiadau mewn economi gylchol ar lefel genedlaethol.

Hyd yma, gyda €315 biliwn wedi'i roi yng Nghynllun Buddsoddi Ewrop, mae wedi casglu €116 biliwn mewn buddsoddiadau yn y flwyddyn gyntaf. Mae wedi creu dros 100,000 o swyddi newydd ac mae'r Gronfa Ewropeaidd ar gyfer Buddsoddiadau Strategol wedi dweud y byddant yn darparu €500 biliwn erbyn 2020 gan anelu at ddarparu €630 biliwn erbyn 2022.

EURODESK UK



Rydym bellach yn llysgennad Eurodesk. Prif nod llysgenhadon yw helpu i godi ymwybyddiaeth o Eurodesk UK a chyfleoedd i wirfoddoli, astudio a hyfforddi mewn gwledydd eraill i bobl ifanc a sefydliadau.

Mae Europe Direct Wrecsam yn mynd i nifer o ddigwyddiadau mewn colegau a phrifysgolion â stondinau gwybodaeth i ddarparu gweithdai a chyfleoedd, felly mae bod yn llysgennad yn ategu ein gwaith presennol. Ym mis Rhagfyr, bu i ni gyfarfod â llysgenhadon a phartneriaid eraill Eurodesk i rannu arferion da a chreu cysylltiadau â sefydliadau eraill.

Mae Eurodesk yn helpu pobl ifanc 13-30 oed i ddod o hyd i gyfleoedd wedi'u hariannu sydd ar gael yn Ewrop ac i roi blas ar gymryd rhan. Mae Eurodesk hefyd yn darparu cymorth a chynngor i'r rhai sy'n gweithio ym maes ieuencid.

eurodesk

Y diweddaraf am Brexit

Ers y refferendwm fis Mehefin 2016, mae'r cyfryngau wedi bod yn llawn erthyglau am y DU yn gadael yr UE, ystyr hynny a beth allai ddigwydd. Fis Ionawr, fe roddodd y Prif Weinidog araith a oedd yn amlinellu'r cynlluniau i adael yr UE.

Dylid nodi y bydd trafodaeth rhwng y DU a'r gwledydd sy'n dal yn aelodau o'r UE, a'r Cyngor Ewropeaidd sy'n gosod y telerau trafod.

Cynllun 12 rhan Llywodraeth y DU yw:

1. Rhoi sicrwydd ynghylch y broses o adael y UE
2. Rheoli ein cyfreithiau ein hunain
3. Cryfhau'r cysylltiad rhwng pedair gwlad y DU
4. Cadw'r Ardal Deithio Gyffredin gydag Iwerddon
5. Rheoli mewnfudo sy'n dod o'r UE
6. Hawliau i ddinasyddion yr UE ym Mhrydain, a dinasyddion Prydain yn yr UE
7. Amddiffyn hawliau gweithwyr
8. Masnach rydd gyda marchnadoedd Ewrop (gadael y farchnad sengl a chreu cytundeb Masnach Rydd newydd gyda'r UE)
9. Cytundebau masnachu newydd gyda gwledydd eraill
10. Y lle gorau ar gyfer gwyddoniaeth ac arloesi
11. Cydweithredu yn erbyn trosedd a therfysgaeth
12. Gadael yr UE yn rhwydd a threfnus

Nid yw'r Cyngor Ewropeaidd wedi gosod ei delerau trafod yn ffurfiol eto, ond mewn araith gan Michel Barnier – Prif Drafodwr y Comisiwn Ewropeaidd, dywedodd bod pedair prif ran i'w paratodau nhw:

1. Undeb – Cadw undeb a buddiannau'r 27 gwlad sy'n dal yn yr UE.
2. Ni all gwledydd sydd y tu allan i'r UE fyth gael yr un hawliau â'r un manteision ag aelodau gan nad ydynt o dan yr un rhwymedigaethau.
3. Ni fydd y trafodaethau'n cychwyn cyn y rhoddir rhybudd o'r bwriad i adael yr UE
4. Ni ellir dewis agweddau penodol o'r farchnad sengl a'i phedwar rhyddid, sef yr hawl i nwyddau, gwasanaethau, arian a phobl symud heb gyfyngiadau.

Y Broses

Mae dal angen tanio Erthygl 50 drwy hysbysu'r Cyngor Ewropeaidd yn ffurfiol bod y DU am adael yr UE. Disgwylir i hyn ddigwydd ddiwedd mis Mawrth 2017. Bydd rhaid iddi gael ei thanio gan ddeddf Seneddol, sy'n gofyn bod ASau'n bwrw pleidlais. Rhagwelir y bydd ASau'n pleidleisio i'w thanio, o ystyried canlyniadau'r refferendwm gan y rhai y maent yn eu cynrychioli.

Pryd fydd y DU yn gadael yr UE?

Nid oes unrhyw ddyddiad wedi'i osod, ond ni fydd y trafodaethau'n cymryd mwy na 2 flynedd (ar ôl tanio Erthygl 50), er y gall y cyfnod hwn gael ei ymestyn trwy gytundeb. Dywedodd Theresa May yn ei haraith nad oedd ganddi eisiau gweld statws drosoglwyddo ddiwedd a'i bod am ddod i gytundeb o fewn y 2 flynedd.

Mae Michel Barnier wedi datgan hefyd y bydd y ddwy flynedd o drafod yn cynnwys amser i osod a chytuno ar ganllawiau ar gyfer trafod ar y cychwyn. Bydd hefyd yn cynnwys cymeradwyo'r cytundeb ar y diwedd, a bydd rhaid i'r Cyngor Ewropeaidd a'r Senedd Ewropeaidd ei gymeradwyo. Yn olaf, bydd rhaid i'r DU gymeradwyo'r cytundeb. Mae'n debyg mai tua 18 mis fydd ar ôl ar gyfer trafod. Pe bai'r DU yn hysbysu'r Cyngor erbyn diwedd mis Mawrth 2017, yna gallai'r trafodaethau gychwyn ychydig wythnosau wedyn, a byddai modd cyrraedd cytundeb ar Erthygl 50 erbyn mis Hydref 2018.

Cyfreithiau cyfredol yr UE – parhad y cyfreithiau hynny

Yn ôl adroddiad gan y BBC, bydd Llywodraeth y DU yn pasio Mesur Diddymu Mawr a fydd yn terfynu goruchafiaeth cyfraith yr UE yn y DU. Mae disgwyl hefyd y bydd holl ddeddfwriaeth yr UE yn cael ei chynnwys yng nghyfraith y DU ar un waith, felly bydd nifer o hawliau a gafwyd trwy gyfraith yr UE, fel hawliau gweithwyr a hawliau defnyddwyr, yn dal yn berthnasol. Gallai hyn newid dros amser wrth i'r Llywodraeth benderfynu pa rannau y dylid eu cadw, eu newid a'u diddymu yn y dyfodol.

Cyllid a rhaglenni'r UE

Mae disgwyl i raglenni fel Erasmus+ bara yn y DU tan ddiwedd y rhaglen. Felly, o ran Erasmus+, sy'n para tan 2020, disgwylir i'r DU barhau i allu bod yn rhan o'r rhaglen tan hynny, hyd yn oed os yw wedi gadael yr UE. Mae disgwyl y bydd yr un peth yn wir am y rhaglenni eraill sydd â dyddiadau terfyn tebyg. Nid yw dyfodol y rhaglenni yn y DU ar ôl gadael yn glir ar hyn o bryd, ac efallai y bydd hynny'n cael ei benderfynu yn ystod y trafodaethau.

Rhannau allweddol yn y trafodaethau

Y Comisiwn Ewropeaidd:

Prif Drafodwr y Comisiwn Ewropeaidd yw Michel Barnier. Mae ganddo brofiad helaeth o nifer o'r meysydd polisi a fydd yn debygol o gael eu cynnwys yn y trafodaethau. Bu'n Weinidog Materion Tramor ac Amaethyddiaeth yn Ffrainc. Yn ystod ei gyfnod yn y Comisiwn Ewropeaidd, roedd yn arwain nifer o feysydd, gan gynnwys polisi rhanbarthol, y farchnad fewnol a diwygiadau sefydliadol.

Y DU:

David Davis – AS – Ysgrifennydd Gwladol dros Adael y DU

Cyn-weinidog Gwyddoniaeth, y Swyddfa Dramor a Chyn-ysgrifennydd Gwladol yr wrthblaid. Yn y swydd hon, fo sy'n gyfrifol am waith yr Adran ar gyfer Gadael yr UE, a fydd yn cynnwys gweithio gyda llywodraethau datganoledig fel Cynulliad Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Bydd hefyd yn cynnwys arwain y trafodaethau a thrafod gyda gwledydd eraill Ewrop.

Dolenni defnyddiol

Yr Adran ar gyfer Gadael yr UE – bit.ly/exiteu

Tasglu ar gyfer paratoi ac arwain trafodaethau â'r Deyrnas Unedig dan Erthygl 50 o Gytundeb yr UE - <http://bit.ly/eucommexit>

Erasmus+ yn Dathlu 30 Mlynedd


Mae Erasmus+, y rhaglen sy'n cefnogi addysg, hyfforddiant, pobl ifanc a chwaraeon yn Ewrop, yn dathlu 30 mlwyddiant yn 2017. Mae Erasmus+ yn galluogi pobl i wirfoddoli, hyfforddi, astudio a chymryd rhan mewn cyfnewidfydd rhwng pobl ifainc mewn gwledydd eraill. Gall staff addysgu mewn ysgolion, addysg uwch, astudiaethau galwedigaethol ac addysg oedolion ynghyd â gweithwyr ieuencid hefyd gymryd rhan yn y rhaglen a datblygu'n broffesiynol. Mae'r rhaglen wedi'i hariannu, felly mae nifer o'r costau wedi'u cwrdd ar eich rhan.

Dechreuodd ar ffurf Erasmus, a roddai gyfle i fyfyrwyr astudio rhywfaint mewn gwlad wahanol. Yn 2014, bu i raglenni eraill fel Comenius, Leonardo a Grundtvig gael eu cynnwys dan enw Erasmus a daeth rhai i ben, a rhoddwyd yr enw Erasmus+ ar yr holl raglenni.

I gael gwybod mwy am gymryd rhan ym mhrosiect Erasmus+, ewch i: http://ec.europa.eu/programmes/erasmus-plus/individuals_en

Manteision Erasmus+

Mae sawl mantais i dreulio cyfnod yn astudio, hyfforddi neu'n gwirfoddoli mewn gwlad wahanol, gan gynnwys hwb i hyder, gwella cyflogadwyedd, gwella sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyng-ddiwylliannol, ac enwi rhai.



Beth yw Europe Direct?

Gwasanaeth gwybodaeth am Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd yw Europe Direct. Rydym ni'n darparu cyhoeddiadau AM DDIM i bob oed ar bob math o bynciau, o gyfleoedd yn Ewrop i becynnau i athrawon. Gall y rhain gynnwys mapiau, baneri a phosteri.

Rydym hefyd yn darparu gweithdai AM DDIM ar bynciau fel hanes yr UE, yr hyn mae'n ei wneud, sut mae'n llunio cyfreithiau a phwysigrwydd dysgu ieithoedd tramor modern. Gallwn deilwra'r gweithdai i gynnwys pethau fel cwisiau, gemau mapiau a chreu ASE a bag Ewropeaidd. Yn ogystal â chyhoeddiadau a gweithdai, gallwn helpu i drefnu wythnosau Ewropeaidd, cynullïadau Ewropeaidd, diwrnodau hwyl ac ymweliadau gan ASEau.

Engbreiffiau o Weithdai:

- Tylwyth Teg Ewrop.
- 'Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd – beth ydyn nhw?'
- Creu eich Dinesydd Ewropeaidd eich hun, a Baner yr UE.
- Partneriaethau Strategol Erasmus+ ar gyfer Ysgolion (i athrawon).
- E-Efeillio (i athrawon).
- Ymweliadau AM DDIM ag adeilad y Senedd Ewropeaidd yn Llundain.
- Parlamentarium – Canolfan Ymwelwyr y Senedd Ewropeaidd – Brwsel.

Os hoffech chi i Europe Direct Wrecsam ddod i roi cyflwyniadau, dod i ddigwyddiadau neu os hoffech chi fwy o wybodaeth, yna mae croeso i chi gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion isod:

**Europe Direct
Wrecsam**

Llyfrgell Wrecsam,

Ffordd Rhosddu,

Wrecsam,

LL11 1AU

europedirect@wrexham.gov.uk

01978 292631